



Prifysgol  
Abertawe  
Swansea  
University

# CYNYDDU YMWYBYDDIAETH DATHLU AMRYWIAETH HYRWYDDO CYDRADDOLDEB EHANGU CYNWYSOLDEB



**ADRODDIAD CYDRADDOLDEB  
BLYNYDDOL**

2021 - 2022

<b>CROESO</b>	<b>3</b>
<b>TROSOLWG O'R BRIFYSGOL</b>	<b>7</b>
<b>OEDRAN</b>	<b>8</b>
<b>ANABLEDD</b>	<b>11</b>
<b>AILBENU RHYWEDD</b>	<b>13</b>
<b>PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL</b>	<b>16</b>
<b>BEICHIAGRWDYDD A MAMOLAETH</b>	<b>19</b>
<b>HIL</b>	<b>21</b>
<b>CREFYDD A CHRED</b>	<b>25</b>
<b>RHYW</b>	<b>29</b>
<b>CYFEIRIADEDD RHYWIOL</b>	<b>33</b>
<b>ASESIADAU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB</b>	<b>36</b>
<b>DATA MYFYRWYR 2021/2022</b>	<b>37</b>
<b>CYNYDDU YMWYBYDDIAETH</b>	<b>38</b>
<b>ATODIAD 1 CYNNYDD Y CYNLLUN</b>	
<b>CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024</b>	<b>39</b>
<b>MANYLION CYSWLLT Y TÎM CYDRADDOLDEB</b>	<b>44</b>

Fel Cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb Prifysgol Abertawe, mae'n bleser gennyf rannu Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol eleni sy'n cyflwyno data monitro cydraddoldeb Prifysgol Abertawe ar gyfer y cyfnod 2021/2022. Yn ystod y cyfnod adrodd mae cyfyngiadau Covid-19 wedi cael eu llacio'n raddol yng Nghymru, ac mae llawer o staff a myfyrwyr yn Abertawe wedi dod yn ôl i'r campws ar sail cynllun dychwelyd yn raddol sy'n cyd-fynd ag arweiniad Llywodraeth Cymru. Serch hynny, mae llawer ohonom wedi wynebu heriau eleni wrth i ni barhau i addasu i'n ffyrdd newydd o weithio. Hoffwn ddiolch i'n holl gydweithwyr ledled y Brifysgol sydd wedi cydweithio yn ystod y cyfnod hwn i hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb yn gyson. Mae rhestr o'r cydweithwyr hyn, sef yr unigolion allweddol sy'n hyrwyddo'r agenda hon, i'w gweld yng nghefn yr adroddiad hwn.

Er bod dyletswydd gyfreithiol arnom i gyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'n bwysig nodi bod Prifysgol Abertawe hefyd yn llwyr ymrwymedig i sicrhau tegwch a chydaddoldeb i'w holl staff a myfyrwyr. Defnyddir cynnwys yr adroddiad hwn i lywio blaenoriaethau'r Brifysgol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gellir gweld diweddariad am y cynnydd a wnaed i wireddu ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol \(2020-2024\)](#) tua diwedd yr adroddiad hwn.

Er gwaethaf y dirwedd sy'n newid yn gyson, mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi parhau'n flaenoriaeth allweddol i'r Brifysgol wrth i ni barhau i wneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb strategol.

## **GWREIDDIO CYDRADDOLDEB MEWN ARFERION RECRIWTIO**

Rydym wedi parhau i weithredu er mwyn dileu rhwystrau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y broses recriwtio drwy weithredu cadarnhaol lle bynnag y bo'n briodol ac o ganlyniad:

- Bu cynnydd yn y ganran o geisiadau gan unigolion o gefndir lleiafrif ethnig, sef o 34.3% y llynedd i 38% eleni. Dyma'r gyfran uchaf o geisiadau gan ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig ers i ni ddechrau casglu'r math hwn o ddata. Er ein bod yn falch o'r cynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, rydym yn sylwi bod bwlch rhwng cyfraddau llwyddiant lleiafrifoedd ethnig ac ymgeiswyr gwyn a byddwn yn parhau i fynd i'r afael â hyn.
- Mae'r gyfradd lwyddiant ar gyfer ymgeiswyr anabl wedi cynyddu o 13.3% y llynedd i 17.9% eleni ac mae'n uwch na chyfradd y rhai na ddatganodd anabledd (12.7%).
- Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr LGBT+ wedi cynyddu hefyd, o 11.2% y llynedd i 14.9% eleni. Mae hyn hefyd yn uwch na chyfradd lwyddiant ymgeiswyr heterorywiol, sef 12.8% eleni.
- Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr benywaidd wedi cynyddu o 12.1% y llynedd i 16.1% eleni ac mae ymgeiswyr benywaidd yn parhau'n fwy llwyddiannus nag ymgeiswyr gwrywaidd (10.5%).

## **GWELLA CYDRADDOLDEB HILIOI**

Rydym wedi cymryd rhan yn y prosiect cydweithredol, Race Access and Success ar y cyd ag Advance HE a CCAUC. Dyma raglen wella Cymru gyfan â'r nod o wella cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch drwy gyfres arloesol o weithdai, setiau cynllunio gweithredu ac ymgynghori. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a bwriedir ymgynghori ymhellach er mwyn deall profiadau pob dydd staff a myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Gydag 13.1% o'n gweithlu'n nodi eu bod o gefndir lleiafrif ethnig, rydym yn parhau i ragori ar feincnod Cymru, sef 8.8% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2021). Mae canran y cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn ein gweithlu wedi cynyddu 6% yn y 5 mlynedd diwethaf.

Eleni, am y tro cyntaf, cofnodwyd is-gategoriâu ethnigrwydd i'n helpu i dargedu ein camau gweithredu'n fwy penodol yn y dyfodol.

## **MYND I'R AFAEL Â'N BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU**

Unwaith eto, mae'r Brifysgol wedi cadarnhau ei hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau drwy gofnodi ein data am ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar wefan gov.uk. Mae cyfartaledd cymedrig presennol ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 15.3%, sef 3.1% yn llai na'r hyn a gofnodwyd gennym y llynedd. Mae'r cyfartaledd wedi lleihau 5.5% dros y pedair blynedd diwethaf. Mae hyn yn golygu ein bod eisoes wedi rhagori ar y targed a osodwyd gennym i ni ein hunain yng [Nghynllun Cydraddoldeb Strategol ein Prifysgol \(2020-2024\)](#) i leihau ein bwlch cyflog cymedrig 2% erbyn 2024. Byddwn yn parhau i weithio'n galed i leihau'r bwlch ymhellach.

## **HYBU CYDRADDOLDEB LGBT+**

Mae Prifysgol Abertawe wedi gwella ei safle ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall o 47 i 26, sef ein safle uchaf hyd yn hyn yn y tabl cynghrair o gyflogwyr yn y DU. Mae'n bleser mawr gennym ein bod hefyd wedi gwella ein safle ymhlith cyfranogwyr yn y mynegai o'r sector addysg, o'r 6ed i'r 5ed safle. Rydym wedi ennill gwobr safon aur, sy'n cydnabod ein bod wedi gwneud cydraddoldeb LGBT+ yn elfen hanfodol o'n meysydd gwaith craidd a hynny ar y lefel uchaf. Mae'r Brifysgol a'n Rhwydwaith Staff LGBT+ wedi cydweithio i sicrhau bod Abertawe'n lle mor gynhwysol â phosib yn ystod cyfnod sydd wedi bod yn anodd iawn i'r gymuned LGBTQ+. Mae'r gwelliant hwn yn ein safle yn y mynegai ac, yn bwysig, y wobr aur, yn dangos ein bod yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

O ganlyniad, mae canran ein cydweithwyr LGB+ yn parhau i gynyddu ac, ar 4.5%, mae'n parhau'n uwch na meincnod y DU, sef 3.5% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2021).

## **GALLUOGI PERFFORMIAD**

Unwaith eto, cwblhawyd 99% o Adolygiadau Datblygiad Perfformiad blynyddol yn 2021. Yn ystod cyfnod parhaus a digynsail o ansicrwydd a tharfu, roeddem yn teimlo ein bod hi'n bwysicach byth i'n holl gydweithwyr gael cyfle i gael sgysiaau ystyrllon am eu twf personol, ni waeth beth yw eu cefndir, eu credoau neu eu nodweddion gwarchoddedig unigol.



Mae ein mentrau galluogi perfformiad yn parhau i gefnogi dilyniant gyrfa ein cydweithwyr yn rhagweithiol, yn enwedig ein hacademyddion benywaidd sydd, yn hanesyddol, wedi bod yn llai tebygol o wneud cais am ddyrchafiad. Cafwyd cynnydd o 58% yn nifer yr ymgeiswyr benywaidd llwyddiannus, o'i gymharu â 2015 ac mae ein canran o Athrawon benywaidd wedi cynyddu o 13% yn 2014 i 26% yn 2022. Mae hyn yn cymharu â meincnod sector y DU am Athrawon benywaidd, sef 28% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2021).

Gwelwyd cynnydd o 67% hefyd yn nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus o leiafrifoedd ethnig ar bob lefel o'i gymharu â 2015.

## **CYNYDDU AMLYGRWYDD AR LEFEL UWCH**

Rydym wedi parhau i fonitro strwythur llywodraethu ein Cyngor ac, ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd 56% o aelodau'r Cyngor yn fenywaidd o'i chymharu â'r ganran yn 2013, sef 25%. Mae canran aelodau'r Cyngor o gefndiroedd lleiafrif ethnig yn parhau i gynrychioli canran ein cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn y Brifysgol.

Mae'n bleser gennym nodi hefyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar lefel Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol, lle mae 50% o'r aelodau bellach yn fenywaidd am y tro cyntaf. Mae gwaith yn parhau yn y maes hwn i wella cynrychiolaeth aelodau o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r gwaith ailstrwythuro i greu cyfadrannau wedi ein galluogi i benodi arweinwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn yr Ysgolion a'r Cyfadrannau. Mae'r unigolion hyn yn gyfrifol am sicrhau bod ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhan gynhenid o swyddogaethau beunyddiol eu meysydd.

## **DATHLU AMRYWIAETH**

Wrth i'r cyfyngiadau lacio yn ystod y cyfnod adrodd, roeddem yn gallu mabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg at gynnal digwyddiadau, gan gynnal rhai ar-lein a rhai wyneb yn wyneb ond gyda dewis i gymryd rhan ar-lein.

Ymysg y digwyddiadau a gynhaliwyd roedd Diwrnod Coffáu'r Holocaust, Mis Hanes LGBT+, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes Pobl Dduon, yn ogystal ag amrywiaeth o ddigwyddiadau rhyng-ffydd.

Trefnwyd llawer o'r dathliadau a'r digwyddiadau hyn mewn partneriaeth agos ag Undeb y Myfyrwyr ac roeddent yn cynnwys cydweithwyr a myfyrwyr.

Enillodd ein Hacademi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA) y categori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysoldeb yng ngwobrau Cymdeithas y Gwasanaethau Cynghori ar Yrfaoedd i Raddedigion. Roedd y wobr hon yn cydnabod cyfranogiad ACA yn rhaglen RE: Action 24/7 sy'n cefnogi uchelgeisiau a galluoedd pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sydd am roi hwb i'w gyrfaoedd.

Mae ein [Hadroddiad Blynyddol ar Wasanaethau GGS Cynhwysol](#) yn amlygu gweithgareddau'r grŵp yn y flwyddyn academiaidd ddiwethaf, sy'n cynnwys y pecyn cymorth Llyfrau Byw sydd wedi bod yn effeithiol wrth feithrin cysylltiadau a datblygu dealltwriaeth yng nghymuned y Brifysgol, a lansio'r cwrs Arferion Cynhwysol.

## **CAMAU NESAF**

Er ei bod hi'n bwysig dathlu ein cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae meysydd amlwg lle mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion i barhau i wneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb strategol.

Y flaenoriaeth allweddol fwyaf amlwg yw cyfraddau recriwtio, cadw a dyrchafu cydweithwyr o gefndiroedd lleiafrif ethnig. O bwys arbennig yw'r angen i gynyddu nifer y cydweithwyr o gefndiroedd lleiafrif ethnig mewn swyddi lefel uwch yn y Brifysgol. Mae gwaith eisoes wedi dechrau yn y maes hwn, drwy ddatblygu cynllun gweithredu ar hil cynhwysfawr. Nod y cynllun hwn yw mynd i'r afael â'r meysydd hyn a meysydd blaenoriaeth eraill a nodwyd drwy gyfres ddiweddar o ymarferion ymgynghori â chydweithwyr a myfyrwyr o bob cefndir ethnig ynghylch eu profiadau o weithio/astudio yn y Brifysgol.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond mae'n rhaid i ni wneud mwy a bod yn rhagweithiol ac yn arloesol, drwy ymgymryd â gweithgareddau i leihau'r bwlch ac i annog rhagor o fenywod i ymgeisio am swyddi uwch.


Mae Uwch-dîm Arweinyddiaeth Prifysgol Abertawe'n parhau'n ymrwymedig i wneud cynnydd yn yr holl feysydd a nodwyd uchod drwy ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.

**Dirprwy Is-ganghellor Martin Stringer**

---

# Cipolwg ar ein Gweithlu o 3,912

## OEDRAN CYFARTALOG



**43**

Gwryw: 43  
Benyw: 42

## AILBENU RHYWEDD

	%	👤
Hunaniaeth rhywedd yr un peth	82.6	3,231
Dewis peidio â dweud	16.8	659
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol	0.3	13
Anhysbys	0.2	9

## RHYW



54.3% Benyw 2,126      45.7% Gwryw 1,786


## ACADEMYDDION

44.1% Benyw      55.9% Gwryw

## GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

63.9% Benyw      36.1% Gwryw


## HIL



83.7%	3,273	Gwyn
13.1%	511	Lleiafrif Ethnig
3.0%	119	Dewis peidio â dweud
0.3%	9	Anhysbys
4.2%	165	Asiaidd
3.9%	151	Grŵp ethnig arall (gan gynnwys Arabiaid a Sipsiwn/Teithwyr)
2.6%	101	Tsieineaidd
1.7%	65	Cymysg
0.7%	29	Du

## ABSENOLDEB RHIAN

137	74.1%	Mamolaeth
44	23.8%	Tadolaeth/Partner
4	2.2%	Mabwysiadu



## ANABLEDD

**362 (9.3%)**

o'r staff wedi datgan bod ganddynt anabled

**3,423 (87.5%)**  
Dim anabled

**119 (3.0%)**  
Dewis peidio â dweud


## CYFEIRIADEDD RHYWIOL

	%	👤
Heterorywiol	74.0	2,894
Dewis peidio â dweud	21.2	830
LGB+	4.5	176
Deurywiol	2.0	78
Dyn hoyw	1.3	51
Menyw hoyw/Lesbiad	0.8	33
Arall	0.4	14
Anhysbys	0.3	12

## PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

	%	👤
Yn briod	46.8	1,829
Sengl	27.3	1,068
Yn cyd-fyw	11.7	459
Dewis peidio â dweud	8.7	339
Wedi ysgaru	2.5	97
Wedi gwahanu	0.9	35
Arall	0.6	24
Partneriaeth Sifil	0.6	22
Anhysbys	0.6	22
Gweddw	0.4	17

## CREFYDD



## CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

31-35	15.6%	611
36-40	15.4%	603
41-45	14.3%	559
46-50	12.9%	505
51-55	11.6%	452
26-30	9.8%	385
56-60	9.2%	360
25 oed ac iau	5.2%	202
61-65	4.0%	155
66+	2.0%	80

### Cyfanswm

**3912**

### OEDRAN CYFARTALOG

Benywod	42
Gwrywod	43
Pawb	43

Mae'r categorïau oedran a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cyfateb i gategoriâu oedran yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae oedran cyfartalog cydweithwyr benywaidd (42) a gwrywaidd (43) wedi aros yr un peth â'r llynedd. Fodd bynnag, mae'r oedran cyfartalog cyffredinol wedi cynyddu ychydig o 42 i 43 oed.

Mae llai o gydweithwyr 25 oed ac iau yn gweithio yma o'i gymharu â'r llynedd, ond, serch hynny, mae'r ganran, sef 5.2% o'r gweithlu, yn uwch na chyfartaledd y sector addysg uwch yng Nghymru sy'n 4.4%. Eleni, nid ydym wedi cynnwys myfyrwyr sy'n Arweinwyr Ymestyn yn Ehangach, ac Uwch-arweinwyr Ymestyn yn Ehangach a chydweithwyr a gyflogwyd at ddibenion COVID-19 (Profwyr Asymptomatig) yn ein gweithlu cyffredinol oherwydd rolau tymor byr yw'r rhain. Roedd y staff hyn y llynedd yn cynrychioli 50% o'r categori oedran 25 oed ac iau.

Mae 70% o'r gweithlu rhwng 31 a 55 oed, sy'n uwch na chyfartaledd sector addysg uwch y DU, sef 65.5% ac ychydig yn uwch na chyfartaledd y sector addysg uwch yng Nghymru, 68% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2021).



## RECRIWTIO

Swyddi a hysbysebwyd **1100**

### CEISIADAU FESUL OEDRAN

25 oed ac iau	20.8%	2250
31-35	18.9%	2041
26-30	17.4%	1875
36-40	14.6%	1580
41-45	9.6%	1041
46-50	7.2%	778
51-55	5.3%	573
56-60	3.4%	362
Anhysbys	1.4%	150
61-65	1.1%	123
66+	0.3%	27

Ceisiadau a dderbyniwyd **10800**

### CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP)

Anhysbys	24.0%	36
25 oed ac iau	21.2%	476
26-30	14.1%	265
51-55	12.6%	72
66+	11.1%	3
46-50	10.7%	83
56-60	10.2%	37
31-35	10.0%	205
41-45	9.8%	102
61-65	9.8%	12
36-40	9.1%	144

Cyfradd lwyddiant gyffredinol **13.3%** **1435**

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd a nifer y ceisiadau wedi cynyddu ers y llynedd (2020-2021). Fodd bynnag, bu gostyngiad yn lefelau recriwtio yn 2020-2021 oherwydd cyfyngiadau ariannol a phandemig Covid-19. Codwyd y cyfyngiadau ariannol yn 2021-2022 gan ganiatáu i recriwtio ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

Derbyniwyd y nifer mwyaf o geisiadau gan ymgeiswyr yn y categori oedran 25 oed ac iau (20.8% o'r holl geisiadau). Mae hyn ychydig yn uwch na'r llynedd pan oedd ymgeiswyr o dan 25 oed yn cynrychioli 23.2% o'r cyfanswm. Myfyrwyr oedd deiliaid 37% o'r swyddi yn y grŵp oedran hwn, mewn rolau Myfyrwyr Arddangos a Myfyrwyr Llysgennad.

Roedd 72% o'r holl ymgeiswyr rhwng 25 a 40 oed, sy'n dangos bod y rhan fwyaf o'n hymgeiswyr ychydig yn iau nag oedran cyfartalog ein gweithlu presennol.

Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr yn gyffredinol wedi cynyddu o 10.5% i 13.3%.

Gwelwyd y cynnydd hwn ym mhob categori oedran ac mae'r patrwm fesul oedran yn debyg i'r llynedd. Y grŵp oedran â'r gyfradd lwyddiant uchaf oedd y categori 'anhysbys', sef 24%. Y grŵp oedran nesaf oedd 25 ac iau, sef 21.2%

## YMADAWYR

25 oed ac iau	24.4%	211
26-30	14.8%	128
31-35	14.5%	125
36-40	9.7%	84
41-45	8.1%	70
46-50	7.2%	62
56-60	6.8%	59
61-65	6.0%	52
51-55	5.7%	49
66+	2.9%	25
<b>Cyfanswm</b>		<b>865</b>

Mae'r canrannau uchaf o ymadawyr yn y grŵp 25 oed ac iau.

Roedd gan 43% o'r grŵp 25 ac iau swyddi cyfnod penodol fel gweithredydd llinell glirio a phrofi asymptomatig.

Mae nifer yr ymadawyr wedi cynyddu o 798 y llynedd i 865 eleni. Dylai nifer yr ymadawyr leihau'r flwyddyn nesaf oherwydd nad oes angen cydweithwyr profi asymptomatig (47 aelod staff dan 25 oed) ar y Brifysgol bellach.

## HYFFORDDIANT

Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd **301**

### HYFFORDDIANT MEWN YSTAFELL DDOSBARTH

31-35	18.3%	644
26-30	13.5%	475
36-40	13.2%	465
41-45	12.9%	454
46-50	12.6%	442
51-55	12.0%	423
56-60	7.2%	253
25 oed ac iau	6.5%	230
61-65	3.2%	113
66+	0.6%	22

**Cyfanswm 3521**

### HYFFORDDIANT AR-LEIN

26-30	20.6%	1790
31-35	20.3%	1761
25 oed ac iau	14.9%	1291
36-40	12.8%	1109
41-45	9.8%	847
46-50	7.6%	664
51-55	6.5%	567
56-60	4.9%	428
61-65	2.1%	184
66+	0.5%	40

**Cyfanswm 8681**

Mae nifer y cyrsiau ystafell ddosbarth (301) wedi cynyddu ychydig yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r llynedd (245). Gellir priodoli hyn i nifer mwy o gydweithwyr yn dychwelyd i'r campws wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu llacio.

Mae'r dosbarthiad oedran o ran cydweithwyr sy'n derbyn hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth yn debyg i'r llynedd yn fras.

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng yn sylweddol ers y llynedd (11514). Gellir esbonio hyn yn rhannol gan gynnydd yn nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth ac yn rhannol oherwydd gostyngiad yn nifer y cyrsiau hyfforddi ar-lein gorfodol newydd, megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl Covid-19 a'r cwrs cyllid troseddol a gafodd eu cyflwyno a'u cwblhau gan gydweithwyr yn ystod 2020-21.

Mae cyfran y cydweithwyr sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfer y grwpiau oedran 26-30 (20.6%), 31-35 (20.3%) a 25 ac iau (14.9%) o'i gymharu â data'r llynedd: 26-30 (13.7%), 31-35 (15.7%) a 25 ac iau (6.7%).

## CWYNION A DISGYBLU

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

### CWYNION

31-35	50.0%	2
41-45	50.0%	2

**Cyfanswm 4**

### DISGYBLU

41-45	28.6%	2
51-55	28.6%	2
26-30	14.3%	1
31-35	14.3%	1
36-40	14.3%	1

**Cyfanswm 7**

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 4 cwyn a chynhaliwyd 7 achos disgyblu. Mae hyn yn llai na'r llynedd, pan gofnodwyd 9 cwyn a 12 achos disgyblu.

O'r cwynion, roedd 50% (2) yn y grŵp oedran 31-35 oed a 50% (2) yn y grŵp 41-45 oed.

O'r achosion disgyblu a gynhaliwyd, roedd 72% o'r holl gydweithwyr rhwng 25 a 40 oed. Roedd 28.6% (2) yn y grŵp oedran 51-55 oed.

# Anabledd

## CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

Dim Anabledd	87.5%	3423
Anabledd	9.3%	362
Dewis peidio â dweud	3.0%	119
Anhysbys	0.2%	8
<b>Cyfanswm</b>		<b>3912</b>

Nododd 9.3% o gydweithwyr fod ganddynt anabledd o'i gymharu â 7.8% y llynedd, sy'n awgrymu cynnydd mewn hyder wrth ddatgelu'r wybodaeth hon. Mae hyn yn uwch na meincnod y DU, sef 5.5% a meincnod Cymru, sef 6.7% (Adroddiad Ystadegau Advanced HE).

O'r cydweithwyr a ddatganodd anabledd, roedd anhawster dysgu penodol gan 26% ohonynt, er enghraifft, dyslecsia, dyspracsia etc a datganodd 20% gyflwr iechyd meddwl gydag 17% yn datgan salwch neu gyflwr iechyd tymor hir.

## RECRIWTIO

Swyddi a hysbysebwyd **1100**

### CEISIADAU YN ÔL ANABLEDD

Dim Anabledd	83.9%	9061
Anabledd	11.2%	1205
Dewis peidio â dweud	4.9%	534

Ceisiadau a dderbyniwyd **10800**

### CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP)

Dim Anabledd	12.7%	1149
Dewis peidio â dweud	13.1%	70
Anabledd	17.9%	216

Cyfradd lwyddiant gyffredinol **13.3%** **1435**

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd a nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi cynyddu ers y llynedd (2020-2021). Fodd bynnag bu gostyngiad yn lefelau recriwtio yn 2020-2021 oherwydd cyfyngiadau ariannol a phandemig Covid-19. Codwyd y cyfyngiadau ariannol yn 2021-2022 gan ganiatáu i recriwtio ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd a nifer y ceisiadau wedi cynyddu ers y llynedd. Mae nifer yr ymgeiswyr yn datgan anabledd (11.2%) wedi cynyddu eleni o'i gymharu â'r llynedd (9.3%).

Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr yn gyffredinol wedi cynyddu o 10.5% i 13.3%.

Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr sy'n datgan anabledd, sef 17.9%, ychydig yn uwch na chyfradd y rhai nad ydynt yn datgan anabledd, 12.7%. Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr sy'n datgan anabledd hefyd wedi cynyddu 4.6% o 13.3% y llynedd i 17.9% eleni.

## YMADAWYR

Dim Anabledd	84.3%	729
Anabledd	11.2%	97
Dewis peidio â dweud	2.8%	24
Anhysbys	1.7%	15
<b>Cyfanswm</b>		<b>865</b>

Mae canran yr ymadawyr a chanddynt anabledd, 11.2%, yn uwch na chanran y gweithlu a ddatganodd anabledd, 9.3%. Mae hyn yn debyg i'r ganran y llynedd. Gellir esbonio hyn yn rhannol oherwydd canran uwch y cydweithwyr ar gontractau cyfnod penodol a ddatganodd anabledd.

# Anabledd

## HYFFORDDIANT

Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd 301

### HYFFORDDIANT MEWN YSTAFELL DDOSBARTH

Dim Anabledd	84.4%	2973
Anabledd	12.8%	452
Dewis peidio â dweud	2.6%	90
Anhysbys	0.2%	6

**Cyfanswm 3521**

### HYFFORDDIANT AR-LEIN

Dim Anabledd	84.1%	7302
Anabledd	12.2%	1056
Dewis peidio â dweud	3.5%	301
Anhysbys	0.3%	22

**Cyfanswm 8681**

Mae nifer y cyrsiau ystafell ddosbarth (301) wedi cynyddu ychydig yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r llynedd (245). Gellir priodoli hyn i nifer mwy o gydweithwyr yn dychwelyd i'r campws wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu llacio.

O'r rhai a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth, nododd 12.8% fod ganddynt anabledd, sy'n 3.5% yn uwch na chanran y cydweithwyr sydd wedi datgan anabledd yn y Brifysgol (9.3%).

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng yn sylweddol ers y llynedd (11514). Gellir esbonio hyn yn rhannol gan gynnydd yn nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth ac yn rhannol oherwydd gostyngiad yn nifer y cyrsiau hyfforddi ar-lein gorfodol newydd, megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl Covid-19 a'r cwrs cyllid troseddol a gafodd eu cyflwyno a'u cwblhau gan gydweithwyr yn ystod 2020-21.

O'r rhai a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein, nododd 12.2% fod anabledd ganddynt, sy'n 2.9% yn uwch na chanran y cydweithwyr sydd wedi datgan anabledd yn y Brifysgol (9.3%).

## CWYNION A DISGYBLU

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

### CWYNION

Dim Anabledd	75.0%	3
Anabledd	25.0%	1

**Cyfanswm 4**

### DISGYBLU

Dim Anabledd	85.7%	6
Anabledd	14.3%	1

**Cyfanswm 7**

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 4 cwyn a chynhaliwyd 7 achos disgyblu.

O'r cwynion, datganodd 25% (1) fod anabledd ganddynt ac ni ddatganodd 75% (3) fod ganddynt anabledd.

O'r achosion disgyblu, nododd 14.3% (1) fod anabledd ganddynt ac ni ddatganodd 85.7% (6) anabledd.

# Ailbennu Rhywedd

## CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

Hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	82.6%	3231
Dewis peidio â dweud	16.8%	659
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	0.3%	13
Anhysbys	0.2%	9
<b>Cyfanswm</b>		<b>3912</b>

Mae'r rhan fwyaf o gydweithwyr (82.6%) yn dweud bod eu rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni, sy'n gynydd o 4.9% ers y llynedd.

Gostyngodd y ganran o gydweithwyr a ddewisodd beidio â dweud 2.4% o 19.2% y llynedd i 16.8% eleni, sy'n awgrymu cynnydd mewn hyder i ddatgelu gwybodaeth.

Canran y cydweithwyr sy'n nodi bod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni yw 0.3%. Mae hyn 0.1% yn uwch na'r ganran a gofnodwyd y llynedd (0.2%) ond ychydig yn is na meincnod y DU, sef 0.4% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2021).

## RECRIWTIO

**Swyddi a hysbysebwyd** 1100

### CEISIADAU FESUL AILBENNU RHYWEDD

Hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	94.5%	10205
Dewis peidio â dweud	3.1%	333
Anhysbys	1.4%	150
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	1.0%	112

**Ceisiadau a dderbyniwyd** 10800

### CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP)

Anhysbys	24.0%	36
Hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	13.3%	1357
Dewis peidio â dweud	9.9%	33
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	8.0%	9

**Cyfradd lwyddiant gyffredinol** 13.3% 1435

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd a nifer y ceisiadau wedi cynyddu ers y llynedd (2020-2021). Fodd bynnag, gostyngodd lefelau recriwtio yn ystod 2020-2021 oherwydd cyfyngiadau ariannol a phandemig Covid-19. Codwyd y cyfyngiadau ariannol yn 2021-2022 gan ganiatáu i recriwtio ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

Mae canran yr ymgeiswyr sy'n nodi bod eu rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni yn debyg i'r ganran y llynedd (96.8%). Mae canran yr ymgeiswyr sy'n nodi bod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni wedi cynyddu 0.2% i 1%.

Cynyddodd y rhai a ddewisodd beidio â dweud 1.6% i 3.1%.

Mae cyfradd lwyddiant gyffredinol ymgeiswyr wedi cynyddu o 10.5% i 13.3%.

Yn wahanol i adroddiad y llynedd, mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr sy'n nodi bod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni yn is (8%) yn eu grŵp eu hunain, na'r rhai sy'n nodi bod eu rhyw yr un peth (13.3%). Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau oherwydd bod y niferoedd yn isel ac mae ymatebion 'dewis peidio â dweud' wedi cynyddu ers y llynedd. Roedd cyfradd lwyddiant y rhai a ddewisodd beidio â dweud yn uwch eleni (9.9%) o'i chymharu â'r llynedd (7.1%).

# Ailbennu Rhywedd

## YMADAWYR

Hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	86.5%	748
Dewis peidio â dweud	11.2%	97
Anhysbys	2.0%	17
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	0.3%	3
<b>Cyfanswm</b>		<b>865</b>

Mae rhywedd 86.5% o ymadawyr yr un peth â'u rhyw a gofrestrwyd adeg geni. Mae rhywedd 0.3% o ymadawyr yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni, sy'n debyg i'r ganran yn y gweithlu (0.3%).

## HYFFORDDIANT

### Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd 301

#### HYFFORDDIANT MEWN YSTAFELL DDOSBARTH

Hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	89.3%	3143
Dewis peidio â dweud	10.1%	356
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	0.5%	16
Anhysbys	0.2%	6
<b>Cyfanswm</b>		<b>3521</b>

Mae nifer y cyrsiau ystafell ddosbarth wedi cynyddu ychydig yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r llynedd (245). Gellir priodoli hyn i nifer mwy o gydweithwyr yn dychwelyd i'r campws wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu llacio.

Gwelwyd cynnydd yng nghyfranogiad cydweithwyr y mae eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni, o 0.1% y llynedd i 0.5% eleni. Mae hyn yn uwch na'r gyfran o gydweithwyr yn y Brifysgol sy'n uniaethu â'r un grŵp (0.3%).

#### HYFFORDDIANT AR-LEIN

Hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	92.6%	8037
Dewis peidio â dweud	6.3%	543
Anhysbys	0.9%	78
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	0.3%	23
<b>Cyfanswm</b>		<b>8681</b>

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng yn sylweddol ers y llynedd (11514). Gellir esbonio hyn yn rhannol gan gynydd yn nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth ac yn rhannol oherwydd gostyngiad yn nifer y cyrsiau hyfforddi ar-lein gorfodol newydd, megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl Covid-19 a'r cwrs cyllid troseddol a gafodd eu cyflwyno a'u cwblhau gan gydweithwyr yn ystod 2020-21.

Gwelwyd cynnydd yng nghyfranogiad cydweithwyr y mae eu rhywedd yn wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd adeg geni, o 0.2% y llynedd i 0.9% eleni, ac mae hyn yn uwch na'r gyfran o gydweithwyr yn y Brifysgol sy'n uniaethu â'r grŵp hwn (0.3%).



# Ailbennu Rhywedd

## CWYNION A DISGYBLU

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

### CWYNION

Hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	75.0%	3
Dewis peidio â dweud	25.0%	1
<b>Cyfanswm</b>		<b>4</b>

### DISGYBLU

Dewis peidio â dweud	57.1%	3
Hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni	42.9%	4
<b>Cyfanswm</b>		<b>7</b>

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 4 cwyn a chynhaliwyd 7 achos disgyblu.

O'r cwynion, nododd 75% (3) fod eu rhywedd yr un â'u rhyw adeg geni, a dewisodd 25% (1) beidio â dweud.

O'r achosion disgyblu a gynhaliwyd, nododd 57.1% (4) fod eu rhywedd yr un â'u rhyw adeg geni a dewisodd 42.9% (3) beidio â dweud.

# Priodas a Phartneriaeth Sifil

## CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

Yn briod	46.8%	1829
Sengl	27.3%	1068
Yn cyd-fyw	11.7%	459
Dewis peidio â dweud	8.7%	339
Wedi ysgaru	2.5%	97
Wedi gwahanu	0.9%	35
Arall	0.6%	24
Partneriaeth Sifil	0.6%	22
Anhysbys	0.6%	22
Gweddw	0.4%	17
<b>Cyfanswm</b>		<b>3912</b>

Mae canran y cydweithwyr sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil yn debyg i'r ganran y llynedd.

Mae canran y cydweithwyr a ddewisodd beidio â dweud wedi gostwng 0.4%, sy'n awgrymu cynnydd mewn hyder wrth roi'r wybodaeth hon.

## RECRIWTIO

**Swyddi a hysbysebwyd** **1100**

### CEISIADAU FESUL PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

Sengl	41.6%	4488
Yn briod	34.7%	3751
Yn cyd-fyw	11.3%	1219
Dewis peidio â dweud	5.2%	566
Wedi ysgaru	2.3%	246
Anhysbys	1.4%	150
Arall	1.3%	135
Wedi gwahanu	1.0%	108
Partneriaeth Sifil	1.0%	106
Gweddw	0.3%	31

**Ceisiadau a dderbyniwyd** **10800**

### CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP)

Arall	25.2%	34
Anhysbys	24.0%	36
Yn cyd-fyw	18.9%	230
Gweddw	16.1%	5
Sengl	15.0%	671
Dewis peidio â dweud	12.4%	70
Wedi gwahanu	10.2%	11
Yn briod	9.3%	349
Wedi ysgaru	8.9%	22
Partneriaeth Sifil	6.6%	7

**Cyfradd lwyddiant gyffredinol** **13.3%** **1435**

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd a nifer y ceisiadau wedi cynyddu ers y llynedd (2020-2021). Fodd bynnag bu gostyngiad yn lefelau recriwtio yn 2020-2021 oherwydd cyfyngiadau ariannol a phandemig Covid-19. Codwyd y cyfyngiadau ariannol yn 2021-2022 gan ganiatáu i recriwtio ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

Mae canrannau'r ymgeiswyr sy'n briod, yn sengl, yn cyd-fyw, wedi ysgaru, wedi gwahanu, mewn partneriaeth sifil neu'n weddw yn debyg i rai'r llynedd.

Derbyniwyd y gyfran uchaf o geisiadau gan y rhai sy'n sengl (41.6%) ac ymgeiswyr priod oedd y ganran uchaf nesaf (34.7%).

Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr yn gyffredinol wedi cynyddu o 10.5% i 13.3%.

Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr priod wedi cynyddu 2.3%, o 7% y llynedd i 9.3% eleni, a gwelwyd cynnydd o 2.2% yng nghyfradd lwyddiant ymgeiswyr mewn partneriaethau sifil, o 4.4% y llynedd i 6.6% eleni.

Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr sy'n cyd-fyw wedi cynyddu 8.2%, o 10.7% y llynedd i 18.9% eleni ac, ar gyfer ymgeiswyr gweddw, mae'r gyfradd lwyddiant wedi cynyddu 7.8%, o 8.3% y llynedd i 16.1% eleni. Mae'r holl gategoriâu eraill yn debyg i rai'r llynedd.

# Priodas a Phartneriaeth Sifil

## YMADAWYR

Sengl	44.6%	386
Yn briod	29.1%	252
Yn cyd-fyw	10.3%	89
Dewis peidio â dweud	7.3%	63
Anhysbys	2.4%	21
Wedi ysgaru	2.2%	19
Arall	1.4%	12
Partneriaeth Sifil	1.3%	11
Wedi gwahanu	0.8%	7
Gweddw	0.6%	5
<b>Cyfanswm</b>		<b>865</b>

Mae canran yr ymadawyr sy'n briod wedi gostwng 3.1% o 33% y llynedd i 29.1% eleni ac mae'n parhau'n sylweddol is na chanran y cydweithwyr yn y Brifysgol sy'n briod (46.8%).

Mae canran yr ymadawyr sydd mewn partneriaeth sifil wedi cynyddu 0.9% o 0.4% y llynedd i 1.3% eleni. Mae hyn 0.7% yn fwy na chanran y cydweithwyr yn y Brifysgol mewn partneriaeth sifil (0.6%).

## HYFFORDDIANT

### Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd 301

#### HYFFORDDIANT MEWN YSTAFELL DDOSBARTH

Yn briod	44.7%	1574
Sengl	29.7%	1045
Yn cyd-fyw	14.2%	499
Dewis peidio â dweud	5.9%	206
Wedi ysgaru	2.7%	94
Wedi gwahanu	0.9%	31
Arall	0.8%	27
Partneriaeth Sifil	0.7%	24
Gweddw	0.3%	12
Anhysbys	0.3%	9
<b>Cyfanswm</b>		<b>3521</b>

#### HYFFORDDIANT AR-LEIN

Sengl	42.3%	3675
Yn briod	30.7%	2669
Yn cyd-fyw	16.2%	1409
Dewis peidio â dweud	4.8%	418
Wedi ysgaru	2.3%	203
Wedi gwahanu	1.1%	95
Arall	0.9%	76
Partneriaeth Sifil	0.8%	69
Gweddw	0.4%	39
Anhysbys	0.3%	28
<b>Cyfanswm</b>		<b>8681</b>

Mae nifer y cyrsiau ystafell ddosbarth wedi cynyddu ychydig yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r llynedd (245). Gellir priodoli hyn i nifer mwy o gydweithwyr yn dychwelyd i'r campws wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu llacio.

Mae canran y cydweithwyr priod (44.7%) a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth yn debyg i'r ganran y llynedd ac yn gymesur â chanran y cydweithwyr priod yn y Brifysgol (46.8%).

Mae canran y cydweithwyr mewn partneriaeth sifil (0.7%) a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth yn debyg i'r ganran y llynedd (0.6%) ac yn gymesur â chanran y cydweithwyr sydd mewn partneriaeth sifil yn y Brifysgol (0.6%).

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng yn sylweddol ers y llynedd (11514). Gellir esbonio hyn yn rhannol gan gynydd yn nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth ac yn rhannol oherwydd gostyngiad yn nifer y cyrsiau hyfforddi ar-lein gorfodol newydd, megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl Covid-19 a'r cwrs cyllid troseddol a gafodd eu cyflwyno a'u cwblhau gan gydweithwyr yn ystod 2020-21.

Mae canran y cydweithwyr priod (42.3%) a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein yn debyg i'r ganran y llynedd (43.9%) ac yn gymesur â chanran y cydweithwyr priod yn y Brifysgol (46.8%).

Mae canran y cydweithwyr mewn partneriaeth sifil (0.8%) a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein yn debyg i'r ganran y llynedd (0.9%) ac yn gymesur â chanran y cydweithwyr mewn partneriaeth sifil yn y Brifysgol (0.6%).

# Priodas a Phartneriaeth Sifil

## CWYNIION A DISGYBLU

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

### CWYNIION

Yn briod	50.0%	2
Sengl	25.0%	1
Dewis peidio â dweud	25.0%	1

**Cyfanswm** **4**

### DISGYBLU

Sengl	57.1%	4
Dewis peidio â dweud	28.6%	2
Yn briod	14.3%	1

**Cyfanswm** **7**

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 4 cwyn a chynhaliwyd 7 achos disgyblu.

O'r cwynion, roedd 50% (2) yn briod, 25% (1) yn cyd-fyw a dewisodd 25% (1) beidio â dweud.

O'r achosion disgyblu a gynhaliwyd, roedd 57.1% (4) yn sengl, dewisodd 28.6% (2) beidio â dweud ac roedd 14.3% (1) yn briod.

# Beichiogrwydd a Mamolaeth

## CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

<b>Cyfanswm</b>		<b>185</b>
Mamolaeth	74.1%	137
Tadolaeth/Partner	23.8%	44
Mabwysiadu	2.2%	4

Cymerodd 137 o gydweithwyr (74.1% o'r gronfa absenoldeb rhiant) absenoldeb mamolaeth yn ystod y cyfnod adrodd. Dyma gynnydd o 5.6% ers y llynedd a chynnydd o 50 o gydweithwyr.

Cymerodd 44 o gydweithwyr (23.8%) absenoldeb tadolaeth/partner yn ystod y cyfnod adrodd. Dyma gynnydd o 6 aelod staff ers y llynedd.

Cymerodd 4 (2.2%) absenoldeb mabwysiadu yn ystod y cyfnod adrodd, cynnydd o 2 gydweithiwr ers y llynedd.

Yn gyffredinol, cymerodd 4.7% o gydweithwyr gyfnod o absenoldeb rhiant yn ystod y cyfnod adrodd.

## RECRIWTO

**Swyddi a hysbysebwyd** **1100**

### CEISIADAU FESUL BEICHOGRWYDD A MAMOLAETH

Heb gymryd absenoldeb rhiant	93.0%	10043
Dewis peidio â dweud	3.8%	412
Absenoldeb Mamolaeth	1.5%	161
Anhysbys	1.4%	150
Absenoldeb Tadolaeth/Partner	0.3%	32
Absenoldeb Mabwysiadu	0.0%	2

**Ceisiadau a dderbyniwyd** **10800**

### CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP)

Anhysbys	24.0%	36
Heb gymryd absenoldeb rhiant	13.5%	1352
Absenoldeb Mamolaeth	13.0%	21
Absenoldeb Tadolaeth/Partner	9.4%	3
Dewis peidio â dweud	5.6%	23

**Cyfradd lwyddiant gyffredinol** **13.3%** **1435**

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd a nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi cynyddu ers y llynedd (2020-2021). Fodd bynnag, bu gostyngiad yn lefelau recriwtio yn 2020-2021 oherwydd cyfyngiadau ariannol a phandemig Covid-19. Codwyd y cyfyngiadau ariannol yn 2021-2022 gan ganiatáu i recriwtio ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

Mae'r data recriwtio'n dangos y cyflwynwyd y rhan fwyaf o geisiadau (93%) gan unigolion nad oedd wedi cymryd absenoldeb rhiant o gwbl yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn debyg i'r ganran y llynedd (94.7%).

Cyflwynwyd 1.8% o'r ceisiadau gan unigolion a oedd wedi cymryd rhyw fath o absenoldeb rhiant, sy'n gynnydd bach ers y llynedd (1.7%).

Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr yn gyffredinol wedi cynyddu o 10.5% i 13.3%.

Roedd cyfradd lwyddiant unigolion a oedd wedi cymryd cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn ystod y cyfnod adrodd (13%) yn debyg i'r rhai nad oedd wedi cymryd absenoldeb rhiant (13.5%). Mae cyfradd lwyddiant y rhai a gymerodd gyfnod o absenoldeb mamolaeth hefyd wedi cynyddu 10% ers y llynedd pan mai 3% yn unig oedd y gyfradd.

# Beichiogrwydd a Mamolaeth

## YMADAWYR

Dim absenoldeb	99.2%	858
Absenoldeb Rhiant	0.8%	7
<b>Cyfanswm</b>		<b>865</b>

Roedd 0.8% (7) o'r ymadawyr wedi cymryd cyfnod o absenoldeb teuluol yn y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn llai na chanran gyfan y cydweithwyr sydd wedi cymryd absenoldeb rhiant yn y cyfnod adrodd (4.7%).

## HYFFORDDIANT

Cyrsiau ystafell ddosbarth a ddarparwyd 301

### HYFFORDDIANT MEWN YSTAFELL DDOSBARTH

Dim absenoldeb	97.6%	3438
Absenoldeb Rhiant	2.4%	83
<b>Cyfanswm</b>		<b>3521</b>

Mae nifer y cyrsiau ystafell ddosbarth wedi cynyddu ychydig yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r llynedd (245). Gellir priodoli hyn i nifer mwy o gydweithwyr yn dychwelyd i'r campws wrth i gyfyngiadau Covid-19 gael eu llacio.

Roedd 2.4% o'r cydweithwyr a oedd wedi derbyn hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth wedi cymryd cyfnod o absenoldeb rhiant yn ystod y cyfnod adrodd.

### HYFFORDDIANT AR-LEIN

Dim absenoldeb	99.1%	8601
Absenoldeb Rhiant	0.9%	80
<b>Cyfanswm</b>		<b>8681</b>

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng yn sylweddol ers y llynedd (11514). Gellir esbonio hyn yn rhannol gan gynnydd yn nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth ac yn rhannol oherwydd gostyngiad yn nifer y cyrsiau hyfforddi ar-lein gorfodol newydd, megis y pecyn ar-lein adfer ar ôl Covid-19 a'r cwrs cyllid troseddol a gafodd eu cyflwyno a'u cwblhau gan gydweithwyr yn ystod 2020-21.

Roedd 0.9% o'r cydweithwyr a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein wedi cymryd cyfnod o absenoldeb rhiant yn ystod y cyfnod adrodd.

## CWYNION A DISGYBLU

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt fesul nodwedd warchoddedig yr unigolyn.

### CWYNION

Absenoldeb Rhiant	0%	0
<b>Cyfanswm</b>		<b>0</b>

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd 4 cwyn a chynhaliwyd 7 achos disgyblu.

O'r cwynion, ni chafodd yr un ohonynt ei chyflwyno gan y rhai a oedd wedi cymryd absenoldeb mamolaeth, tadolaeth/partner neu fabwysiadu. Mae'r un peth yn wir am yr achosion disgyblu a gynhaliwyd.

### DISGYBLU

Absenoldeb Rhiant	0%	0
<b>Cyfanswm</b>		<b>0</b>



## CYFANSODDIAD Y GWEITHLU

Gwyn	83.7%	3273
Lleiafrif Ethnig	13.1%	511
Asiaidd	4.2%	165
Lleiafrif Ethnig arall (gan gynnwys Arabiaid a sipsiwn/teithwyr)	3.9%	151
Tsieineaidd	2.6%	101
Cymysg	1.7%	65
Du	0.7%	29
Dewis peidio â dweud	3.0%	119
Anhysbys	0.3%	9
<b>Cyfanswm</b>		<b>3912</b>

Mae canran ein cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig, sef 13.1%, ychydig yn uwch eleni na'r ganran y llynedd, sef 13%. Mae canran ein cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig wedi cynyddu 6% dros y 5 mlynedd diwethaf.

Mae canran cydweithwyr yn y Brifysgol o leiafrifoedd ethnig, sef 13.1%, ychydig yn is na meincnod y DU, 15.4%, ond mae'n uwch na meincnod Cymru, sef 8.8.% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2021).

Asiaid yw'r is-gategori lleiafrif ethnig mwyaf (4.2%) a'r rhai sy'n nodi grŵp ethnig arall yw'r ail is-gategori mwyaf (3.9%). Mae ein canran ni'n uwch na meincnod Cymru (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2021) ar gyfer pob is-gategori o leiafrif ethnig, ac eithrio'r is-gategori du (0.7%) sydd ychydig yn is na meincnod Cymru, sef 1.04%.

## RECRIWTIO

Swyddi a hysbysebwyd **1100**

### CEISIADAU FESUL HIL

Gwyn	56.0%	6050
Lleiafrif Ethnig	38.0%	4099
Asiaidd	18.4%	1990
Du	6.8%	731
Lleiafrif Ethnig arall	6.2%	666
(gan gynnwys Arabiaid a sipsiwn/teithwyr)		
Tsieineaidd	5.0%	536
Cymysg	1.6%	176
Dewis peidio â dweud	4.3%	461
Anhysbys	1.8%	190
<b>Ceisiadau a dderbyniwyd</b>		<b>10800</b>

### CYFRADD LWYDDIANT YMGEISWYR (O FEWN EU GRŴP)

Anhysbys	20.0%	38
Gwyn	17.7%	1072
Dewis peidio â dweud	8.5%	39
Lleiafrif Ethnig	7.0%	286
Cymysg	18.8%	33
Tsieineaidd	8.0%	43
Lleiafrif Ethnig arall	7.8%	52
(gan gynnwys Arabiaid a sipsiwn/teithwyr)		
Du	6.3%	46
Asiaidd	5.6%	112
<b>Cyfradd lwyddiant gyffredinol</b>	<b>13.3%</b>	<b>1435</b>

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd, a nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi cynyddu ers y llynedd (2020-2021). Fodd bynnag, bu gostyngiad mewn lefelau recriwtio oherwydd cyfyngiadau ariannol a phandemig Covid-19. Codwyd y cyfyngiadau ariannol yn 2021-2022 gan ganiatáu i recriwtio ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

Mae canran y ceisiadau a dderbyniwyd gan ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig wedi cynyddu 3.7% eleni, gan gynyddu o 34.3% y llynedd i 38.0% eleni. Hon yw'r gyfran uchaf o geisiadau gan ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig a dderbyniwyd ers i ni ddechrau casglu data fel hyn. Derbyniwyd llai o geisiadau gan ymgeiswyr gwyn eleni, a gostyngodd y ganran o 61.6% y llynedd i 56% eleni.

Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr yn gyffredinol wedi cynyddu o 10.5% i 13.3%.

Mae cyfradd lwyddiant grwpiau gwyn a lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu ers y llynedd. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng llwyddiant ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig ac ymgeiswyr gwyn wedi cynyddu i 10.7% eleni, (o'i gymharu ag 8% y llynedd) ac roedd 17.7% o ymgeiswyr gwyn yn llwyddiannus, o'i gymharu â 7% o ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig. Wrth edrych ar y dadansoddiad fesul is-gategori, gallwn weld bod cyfradd lwyddiant pob is-gategori, ac eithrio cydweithwyr ag ethnigrwydd cymysg, yn is na chyfradd lwyddiant ymgeiswyr gwyn.

Rydym wedi nodi hyn fel maes blaenoriaeth ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wneud gwaith dadansoddi pellach er mwyn cymryd camau gweithredu priodol â'r nod o leihau'r gwahaniaeth hwn.

## YMADAWYR

Gwyn	78.6%	680
Lleiafrif Ethnig	17.7%	153
Asiaidd	6.1%	53
Du	3.2%	28
Tsieineaidd	3.2%	28
Lleiafrif Ethnig arall	2.9%	25
(gan gynnwys Arabiaid a sipsiwn/teithwyr)		
Cymysg	2.2%	19
Dewis peidio â dweud	1.8%	16
Anhysbys	1.7%	15
Anhysbys	0.1%	1
<b>Cyfanswm</b>		<b>865</b>

Mae canran yr ymadawyr o leiafrifoedd ethnig (17.7%) yn uwch na'r ganran y llynedd, sef 14.3%. Mae'n uwch na chanran ein cydweithwyr o leiafrifoedd ethnig.

Gallwn esbonio hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn contractau cyfnod penodol ar gyfer Gweithredwyr Clirio a staff Profion Covid Asymptomatig. Dylai hyn leihau yn 2022-2023 oherwydd na ragwelir y bydd angen llenwi rolau cynnal profion Covid asymptomatig.

